Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date:
18th May 2020

Gofynner am / Please ask for: Aneirin Thomas

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246645

E-bost / E-mail: ARThomas@carmarthenshire.gov.uk

Dear Parent,

It has come to our attention that there is a small minority of parents that are using the hubs for childcare when they are not in work.

Please can we remind you that you should only book your children into the hubs to cover your working hours; and if your children cannot be cared for by a spouse or other family member. These hubs have been provided for critical workers only to ensure essential frontline services can continue during the coronavirus pandemic.

It is vitally important that parents follow Government advice and keep their children at home where possible to help contain the spread of Covid-19. If your child cannot stay at home, then your childcare will be prioritised.

We have only a limited number of spaces at our hubs, and we are grateful to staff from our schools and the education department for providing this service.

Continued misuse of the childcare hubs could result in places being withdrawn; this is something that we do not want to do, however, we may have no choice if the situation continues.

Parents should expect to be questioned by reception staff at the hubs in order to discourage this behaviour. It may also be necessary to introduce other measures, for example, providing proof of key worker status, to prevent some parents taking advantage.

We would like to thank you for your co-operation on this so that we can continue to provide this vital service for you.

Annwyl Riant,

Mae wedi dod i'n sylw bod lleiafrif bach o rieni yn defnyddio'r canolfannau gofal plant pan nad ydynt yn y gwaith.

Hoffem eich atgoffa mai dim ond ar gyfer eich oriau gwaith y dylech drefnu i'ch plant fynd i'r canolfannau hyn, a dim ond os na all gŵr/gwraig neu aelod arall o'r teulu ofalu am eich plant. Mae'r canolfannau hyn wedi cael eu darparu ar gyfer gweithwyr critigol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau rheng flaen hanfodol barhau yn ystod y pandemig Coronafeirws.

Mae'n hanfodol bwysig bod rhieni yn dilyn cyngor y Llywodraeth ac yn cadw eu plant gartref lle bo modd i helpu i atal lledaeniad Covid-19. Os na all eich plentyn aros gartref, yna rhoddir blaenoriaeth i'ch gofal plant.

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd gennym yn ein canolfannau, ac rydym yn ddiolchgar i staff ein hysgolion a'r adran addysg am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Gallai camddefnyddio'r canolfannau gofal plant yn barhaus arwain at dynnu lleoedd yn ôl; nid ydym am wneud hyn ond efallai na fydd dewis gennym os bydd y sefyllfa'n parhau.

Dylai rhieni ddisgwyl cael eu holi gan staff y dderbynfa yn y canolfannau er mwyn annog pobl i beidio â gwneud hyn.
Hefyd efallai y bydd angen cyflwyno mesurau eraill, er enghraifft, darparu prawf o statws gweithiwr allweddol, i atal rhai rhieni rhag manteisio ar hyn.

Hoffem ddiolch i chi am eich cydweithrediad yn y mater hwn er mwyn i ni allu parhau i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn ar eich cyfer.

Yn gywir/Yours sincerely,

Aneirin Thomas B.A. (Hons)
Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Fynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 3HB
Head of Education & Inclusion Services, Department of Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Job's Well Road,Carmarthen, Carmarthenshire SA31 3HB

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI
EIN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE · LEAD · SUPPORT
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English